

# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 1 Rhif 11

Yn rhad ac am ddim

Chwefror 2021

## Talent Arbennig

gan Rob Evans



Mi ydan ni i gyd wedi edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, blwyddyn erchyll 2020 a'r firws yma sydd wedi ymledu dros y byd i gyd mewn amser mor fyr. Dim ond am dair wythnos oedd y cyfnod clo cyntaf i fod ond dyma ni yn 2021 ac mae'r firws yn dal efo ni a llawer wedi colli anwyliaid. Mae ein bywydau ni wedi bod fel ffuglen ddi-chwaeth. Yn raddol mae rhywun yn colli gafael ar normalrwydd.


Ond mae bywyd yn mynd yn ei flaen ac mi ydw i'n siŵr nid fi oedd yr unig un i ryfeddu ar y cyferbyniad rhwng ein byd ni a byd natur. I ran fwyaf ohonom roedd ein byd ar stop tra oedd byd natur yn symud ymlaen fel doedd dim byd yn bod, yn wir roedd byd natur yn ffynnu wrth gael heddwch oddi wrthon ni. Mi wnaeth y gwanwyn codi llawer o galonnau efo'r dyddiau yn ymestyn ac yn cynhesu. Welais golled o grwydro llwybr arfordir sir Benfro, seiclo o gwmpas llynnoedd Cwm Elan a theithiau wythnosol Cymdeithas Edward Llwyd. Gobeithio y bydden ni'n rhydd i gael mwynhad llawn o wanwyn 2021.

Ond, i ddechrau, doedd dim llawer o newid i'n rhaglenni teledu gan fod digon wedi cael eu cynhyrchu i gadw ni i fynd am ychydig o fisoedd. Ond roedd llawer o grafu pennau i ddarganfod ffyrdd o gynhyrchu rhaglenni mewn ffordd oedd

yn cadw at y rheolau. Yn y cyfamser cawsom wledd o ailddarllediadau, ddoth Dudley yn ôl hyd yn oed ac wrth gwrs yr anfarwol Cym on Midffild - dw'n i ddim amdanoch chi ond dw i wedi gweld nhw llawer gwaith ond maen nhw wastad yn bleser. Mi wnaeth Pobl y Cwm greu cyfres o raglenni am brif gymeriadau'r opera sebon pan oedd eu rhifynnau nhw wedi dod i ben. Roedd Rownd a Rownd yn lwcus iawn mewn ffordd achos bod nhw'n cael seibiant yn ystod yr haf beth bynnag. Mi wnaeth hynny roi cyfle iddyn nhw drefnu ffordd newydd o ffilmio. A tydi'r opera sebon yna mewn lle cyffrous ar hyn o bryd!

Roedd Elin Fflur yn cael crwydro gerddi rhai o sêr Cymru er mwyn cael Sgwrs dan y Lloer. Ac wrth gwrs, uchafbwynt i rai ohonoch chi oedd gweld sut oedd Hogia'r Wyddfa wedi herwgipio Anthony Hopkins!

Ond un peth sydd wedi sefyll allan wrth edrych yn ôl yw talentau cerddorol ein pobl ifanc. Gwelsom ddrama Te yn y Grug, yn seiliedig ar lyfr Kate Roberts, gwaith ardderchog Al Lewis. Torf o bobl ifanc dalentog yn hapus a hyderus ar y llwyfan. Roedd dathliad 30 mlynedd o Ysgol Glanaethwy a chawsom hanes Cefin a Rhian Roberts, nhw a wnaeth sefydlu'r ysgol. Dyma'r ysgol ddrama sydd wedi magu gymaint o'n talentau enwog dros y 30 mlynedd diwethaf. Gwelsom ni llawer ohonyn nhw ar ambell i Noson Lawen yn ddiweddar.



Rhaglenni a chynnwys digidol gwreiddiol o Gymru  
Ar gael i'w gwyllo'n fyw  
ac ar S4C Clic

Programmes and original  
digital content from Wales  
Available to watch live  
and on S4C Clic



Pan dach chi'n ystyried mai 562,000 o siaradwyr Cymraeg roedd yng Nghymru yn ôl y cyfrifiad diwethaf yn 2011 mae'n syndod ac yn rheswm balchder i ni fod gymaint o bobl dalentog yn ein byd Cymraeg. Ac yn enwedig ymysg y to ifanc.

Maen nhw'n dweud bod balchder yn bechod ond na, nid yw'n bechod os balchder o'n bobl dalentog ni ydy o. Felly godwch wydryn iddyn nhw, yr hŷn a'r ifanc a dymunwch ddyfodol disglair iddyn nhw!

A diolch i S4c!

## Beth sy' ar y teledu?

gan Jan Hill-Tout



Ar bob diwrnod gwaith am hanner wedi chwech dw i'n troi'r teledu ymlaen er mwyn gwyllo 'Wales Today', wedyn am saith o'r gloch dw i'n troi drosodd i 'Channel 4 News'. Mae 'fix' dyddiol o newyddion yn dod i ben am hanner wedi saith a dw i'n troi'r teledu i ffwrdd. Beth nesa? Dw i'n golchi'r llestri, gwneud galwadau ffôn, ateb e-byst, wedyn tua naw o'r gloch dw i'n meddwl 'beth sy' ar y teledu?'

Optimist ydw i. Dw i'n byw mewn gobaith y bydd rhywbeth difyr neu ddiddorol, doniol neu addysgiadol ymhlith y cannoedd o sianeli ar gael. Sylweddolais amser maith yn ôl nid ydwyf yn cael pleser wrth wyllo'r diwylliant poblogaidd. Yn bersonol does dim diddordeb gyda fi o gwbl yn gwyllo pobl eraill sy'n coginio, dawnsio, gwnïo neu gael cinio gyda phobl hollol ddiarth. Dw i'n mynd yn ôl ac ymlaen ond fel arfer oherwydd fy niffyg diddordeb yn 'teledu realiti' dw i'n rhoi'r ffidil yn y to a dw i'n troi i rywbeth recordiaid i yn


y gorffennol - yn fwy na thebyg drama drosedd neu raglen am fywyd gwyllt. Dw i'n hoff iawn o raglenni fel Vera, Shetland, dramâu gwleidyddol ac, os ar gael, Weatherman Walking!

Eleni oherwydd bod fy Nghymraeg wedi gwella, dw i wedi troi at S4C. Dw i wedi cael fy synnu ar yr amrywiaeth o raglenni ar gael sy'n fy nifyrru, a dw i'n edrych ymlaen at eu gweld nhw. Ces i fy nghynghori i beidio â defnyddio is-deitlau os dw i eisiau gwella fy iaith, ond mae'n waith anodd pan dw i ddim yn deall pob yn ail berson. Er enghraifft, dw i'n hoffi 'Natur a Ni' ond mae llawer o gyflwynyddion yn dod o'r Gogledd a does gen i ddim syniad o gwbl beth sy'n digwydd rhan fwyaf o'r amser..... maen nhw'n siarad mor gyflym. 'Ta beth, dyma ragor o enghreifftiau o'r rhaglenni dw i'n eu hoffi oherwydd mae'r iaith yn glir a/neu mae'r cynnwys yn ddiddorol. Dw i'n meddwl bod 'Y Gwyll' yn andros o

dda! Gawn ni cyfres newydd os gwelwch yn dda? Hoffais y gyfres gyntaf o 'Un Bore Mercher' a dw i fwy neu lai yn gallu deall y straeon.

Ond rhwng popeth fy ffefrynnau ar S4C yw'r rhaglenni am Gymru ei hun. Dw i'n meddwl bod tair ohonyn nhw'n hudol dros ben

sef 'Ffilmiau Ddoe', 'Bywyd Gwyllt Iolo' a 'Cynefin'. Mae casgliad o ffilmiau o Gymru gyda'r Llyfrgell Genedlaethol ac mae 'Ffilmiau Ddoe' yn dangos enghreifftiau ohonyn nhw. Mae'r casgliad yn gynnwys 5 miliwn troedfeddi o ffilmiau yn dyddio o 1898 yn gynnwys pethau fel siwrnai 'ysbryd' drwy orsaf Conwy (1898) ac adferiad o'r ffilm nodwedd gyntaf yn yr iaith Cymraeg 'Y Chwarelwr' (1935). Yn ogystal â hynny, mae cannoedd o ffilmiau amatur yn dyddio o ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae hanes Cymru yn dod yn fyw yn y rhaglen hon.



Mae gan 'Bywyd Gwyllt Iolo' a 'Cynefin' rhywbeth yn gyffredin, sef siarad am leoedd yng Nghymru, llawer dw i'n adnabod, a llawer hoffwn i'w hymweld. Mae Iolo Williams yn adnabod cefn gwlad Cymru yn anhygoel o dda ac mae e'n ysbrydoli fi i grwydro mwy. Hefyd dw i'n meddwl fod e'n siarad Cymraeg yn glir ac, fel arfer dw i'n gallu deall fe. Mae cyflwynwyr 'Cynefin' yn ymweld â lleoedd hyd a lled Cymru o Ben y Bont i Fangor ac o Ddolgellau i Wrecsam. Roedd un rhaglen yn dweud straeon am bobl o Gymru oedd wedi symud i Lerpwl dros y blynyddoedd. Maen nhw'n darganfod cyfrinachau am y lleoedd, felly hyd yn oed os dw i'n nabod yr ardal dw i'n dysgu rhywbeth newydd. Mae'n rhaid i fi gyfaddef dw i ddim yn deall popeth ac weithiau dw i'n eu gwyllo nhw ddwywaith, gydag is-deitlau'r ail dro, ond mae e'n werth yr ymdrech.

Felly dyma fy neges i ddysgwyr. Ewch amdani! Cymerwch gipolwg ar raglenni S4C achos bydd siŵr o fod rhywbeth diddorol i chi yn eu plith. Pob lwc!


*Fi oedd y dyn bossi yn dweud i beidio gwyllo teledu efo is-deitlau. Y rheswm yw bod gwneud hynny yn eich cadw chi yn meddwl yn yr iaith Saesneg. Dw i'n hoffi gwyllo Montalbano ac ar ôl yr holl flynyddoedd dw i dal heb feistrioli'r Eidaleg. Mae gwyllo dwywaith fel oedd Jan yn awgrymu yn syniad llawer gwell. - Rob*

## Y Castell Siwgr

Nofel gan Angharad Tomos



Un llyfr a hanes dwy ferch, Dorcas ac Eboni. Does gan yr un ohonyn nhw syniad am fodolaeth y llall ond mae gan y ddwy feistr yn gyffredin er nad ydyn nhw byth wedi ei weld. Y dyn yna oedd Arglwydd Penrhyn. Y fo oedd pia'r chwarel ym Methesda a hefyd blanhigfa cansenni siwgr yn bell, bell i ffwrdd. Nid oes dianc o'i grafangau i'r ddwy ohonyn nhw.



Mae'r llyfr yn dechrau efo stori Dorcas sydd yn byw ar dyddyn ar gyrion Dolgellau. Mae ganddyn nhw un fuwch o'r enw Neli ac maen nhw'n corddi'r llefrith i wneud menyn i werthu. Maen nhw hefyd yn casglu gwlan, gwneud edau a nyddu brethyn er mwyn i gwmnïau eraill gwneud dillad ar gyfer milwyr a chaethweision. Er hyn i gyd mae Dorcas yn hapus ond wrth i'r pris maen nhw'n cael am y brethyn ddisgyn mae'n rhaid iddi fynd i weithio yng Nghastell Penrhyn.

Doedd hi ddim yn gyfforddus mewn lle mor grand a'r holl dlodi o gwmpas. Roedd hi'n rebel. Ond doedd neb yn gallu ennill yn erbyn y cyfoethogion a doedd dim dianc chwaith.

Roedd hanes Dorcas yn effeithio'n arw arnaf fi ac roedd rhaid i mi roi'r llyfr i lawr am sbel cyn i mi ddarllen hanes Eboni.

Wnaeth Eboni gael ei chipio o'i phentref a chael ei chludo mewn llong o Wlad Affrig i Jamaica pan oedd hi'n naw mlwydd oed. Wrth gyrraedd Jamaica roedd hi'n cael ei gwerthu fel anifail a chael ei ddanfoni i weithio ar blanhigfa Arglwydd Penrhyn. Mae llawer o gaethweision yn gweithio trwy'r dydd, pob dydd. Roedden nhw'n cael eu cam drin ym mhob ffordd bosib. Os nad oedden nhw'n gweithio'n ddigon caled roedden nhw'n cael eu chwipio, yn waeth byth roedd y lleill yn cael eu gorfodi i'w gwyllo nhw'n dioddef.

Sut allan nhw ddianc? Doedden nhw ddim hyd yn oed yn gwybod ble oedden nhw. Dim ond un ffordd o ddianc sydd gan gaethweision.

Mi ydyn ni i gyd yn gwybod bod caethwasiaeth yn hollol annerbyniol ond dim ond wrth ddarllen llyfr tebyg i'r un yma y byddech chi'n cael y darlun cyfan. Mae'r llyfr yn eich gwylltio chi.

Mae gofyn am gael gwared â chofgolofn Picton yng Nghaerfyrddin ond nid yw'r cyngor yn fodlon efo'r syniad. Dyle pob aelod o'r cyngor cael copi o'r llyfr yma ac ail-ystyried y peth. Yn dawel bach mae caethwasiaeth yn dal yn mynd ymlaen a ninnau'n rhy barod i brynu cynnyrch rhad. Mae'n sefyllfa anghyfforddus.

Os nad ydych yn gallu cael y llyfr o'ch siop leol mae ar gael o <https://carreg-gwalch.cymru/>

## Geiriau

gan Dic Shonnelly

**Gwybod / adnabod.** Yn Saesneg dach chi'n dweud "I know John" a gallech chi ddweud "I know the bus is late" ond yn Gymraeg mae'r 'know' yn wahanol. Yn Gymraeg dyn ni'n 'gwybod' ffeithiau ond 'adnabod' pobl. Felly "Dw i'n adnabod John." Ond "Dw i'n gwybod bod y bws yn hwyr." - mi fyddech chi'n dod i arfer.

**Chwarel** – yn y stori 'Castell Siwgr' dw i'n dweud mai Arglwydd Penrhyn sydd yn perthyn y chwarel ym Methesda ond mae 'chwarel' hefyd yn golygu'r gwydr mewn ffenest hefyd. Sgwn i pam?

## I Ddysgwyr y Flwyddyn Gyntaf

### Brian a Kathy



*Mae Brian a Kathy yn mynd i'r dosbarth nos pob wythnos. Mae Brian yn eistedd yn y parc. Mae Kathy yn gweld Brian.*

Kathy – Helo Brian, sut wyt ti?

Brian – O helo Kathy, dw i'n dda iawn diolch, sut wyt ti?

Kathy – Dw i'n iawn, dw i'n hoffi cerdded yn y parc.

Brian - Does 'na ddim llawer o bobl yma heddiw.

Kathy – Nag oes, mae'r plant yn yr ysgol ac mae eu rhieni yn ôl yn y gwaith.

Brian – Dach chi eisiau eistedd, mae lle i chi yma.

*Mae Kathy yn eistedd*

Kathy – Mae hi'n braf yn yr haul. Wyt ti'n byw yn agos?

Brian – Ydw, dw i'n byw yn Stryd y Dderwen. Ble wyt ti'n byw?

Kathy – Dw i'n byw yn ffordd y Brenin. Dyn ni'n byw yn agos at ein gilydd.

Brian – Ydan, beth am gyfarfod bob wythnos i ymarfer ein Cymraeg.

Kathy – Mae hynny'n syniad da. Dw i eisiau ymarfer siarad.

Brian – A finnau. Beth am gyfarfod pob bore dydd Sadwrn? Mae caffi ardderchog yn y Stryd Fawr.

*Mae Brian a Kathy yn siarad am ddeg munud cyn mynd adref. Maen nhw'n cyfarfod eto ar y penwythnos*

## I Ddysgwyr yr Ail Flwyddyn

### Ci Gwyllt ar y Traeth



Dw i'n ffodus iawn o fyw yn agos iawn at y môr a dw i'n cerdded i lawr bron pob diwrnod. Yn naturiol mae llawer o bobl yn cerdded ar y traeth, y rhan fwyaf efo cŵn, ond mae digon o le i bawb. Rhai dyddiau yn ôl roeddwn i yna yn cerdded ac yn meddwl am beth fydda i'n ysgrifennu i chi nesaf. Yn sydyn, clywais rywun yn gweiddi a welais gi mawr yn rhedeg ataf fi. Roedd y ci yn edrych fel 'prop forward', yn drwm efo ysgwyddau mawr. Neidiodd arnaf fi a bron i mi syrthio ar y llawr.

“Mae'n iawn” meddai'r ddynes “fydd o ddim yn eich brifo chi!”

“Na dydi o ddim yn iawn” medda fi “Dylech chi gadw eich ci dan reolaeth.”

Aeth y ci yn ôl ati hi. Y peth nesaf dyma fo yn neidio arnaf fi efo'i holl bwysau eto. Roeddwn i'n ddiog ofnadwy erbyn hyn.

“Cadwch eich ci dan reolaeth” medda fi, “mae o’n beryglus!”

“Mae wir yn ddrwg gen i” meddai’r ddynes eto “Dydi o ddim yn gwneud hynny fel arfer!”

Aethon nhw heibio a finnau’n meddwl mod i’n ddiogel o’r diwedd, ond yn sydyn roedd y ddynes yn gweiddi unwaith eto. Trois i weld yr anifail yn rhedeg ataf fi ond y tro yma wnaeth hi lwyddo i’w stopio, diolch byth.

“Os nad ydych yn gallu rheoli’ch ci rhowch o ar dennyn medda fi a pheidiwch â dod a fo ar y traeth!”

Diolch byth dyna oedd diwedd y peth a cherddais ymlaen. Er roedd llawer o bobl ar y traeth roedd digon o dawelwch i mi ddod yn ôl at fy hun i sierhau mod i’n mwynhau gweddill fy nhaith.

Erbyn i mi gyrraedd adref roedd gen i syniad am beth i ysgrifennu, a dyma chi wedi ei ddarllen!

---

*Ar ôl dwy flynedd o ddosbarth nos mae llawer o’n dysgwyr yn mynd ar goll i’r iaith. Os nad ydynt yn cael y cyfle i siarad maen nhw’n sicr o golli’r sgiliau sylfaenol maen nhw wedi dysgu. Mae hyn yn digwydd pob blwyddyn ac mae cyfle pwysig yn cael ei wastraffu. Ond mae ymateb i bob problem. Mae’r stori yma yn dangos sut mae grŵp o ddysgwyr wedi llwyddo i sierhau bod eu hiaith yn cadw’n fyw ac, ar ben hynny, yn atgyfodi’r Gymraeg ym mhobl eraill yn yr ardal. Petai’r un peth yn digwydd dros Gymru gyfan - meddyliwch am y gwahaniaeth bydd hynny yn gwneud.*

*Hyn i gyd am bris paned!*

## **Sgyrsiau Pwysig**

gan Martin Jones

“Ble gallwn ni ymarfer y Gymraeg rydyn ni wedi dysgu yn ein dosbarth?” Rydw i’n credu bod pob dysgwr yn gofyn y cwestiwn hwn. Dim ond yn ein dosbarthiadau mae llawer ohonon ni’r dysgwyr yn siarad Cymraeg - a dydy hynny ddim yn

ddigon. Ac os rydych chi’n byw, fel fi, mewn ardal Seisnig, mae’n anodd iawn dod o hyd i gyfleoedd i siarad tu allan i’r dosbarth.

Mynd i’r caffi lleol i gael sgwrs dros baned oedd ein hateb. Felly, bob prynhawn dydd Mawrth, cwrddodd dau neu dri ohonon ni a oedd yn yr un dosbarth. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn ac rydw i’n siŵr i’n Cymraeg llafar ddechrau gwella fesul tipyn achos ein bod ni’n siarad yn fwy aml. Wedyn, digwyddodd rhywun o’n pentref glywed ni’n siarad, roedd hi’n arfer siarad Cymraeg pan oedd hi’n ifanc ac ymunodd â ni bob wythnos. Yn fuan roedd y grŵp yn tyfu wrth i bobl eraill glywed sôn amdanon ni - cymysgedd o ddysgwyr o’r pentref ac o’r tu allan, a phobl a oedd yn dod yn ôl at yr iaith. Am gyfnod, daeth rhywun o Fenter Iaith Abertawe bob hyn a hyn i’n cefnogi ni - yn bennaf trwy gael sgysiau â phobl yn y grŵp. Roedd hyn yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig o ran dysgu iaith bod dydd (e.e. geiriau fel “sboner” a “wejen” yn lle “cariad”!). Ac ar un achlysur, daeth criw ffilmio i wneud darn ar gyfer y rhaglen “Dal Ati.”

Doedd dim strwythur i’n sesiynau, a dim ond cael sgwrs i roi’r byd yn ei le roedden ni! Ond roedd popeth yn Gymraeg, a dyna’r peth pwysig. Wrth edrych yn ôl, rydw i’n siŵr ein bod ni’n defnyddio cryn dipyn o eiriau Saesneg yn ein sgysiau. Ond gan fod pawb yn falch o helpu ei gilydd, roedd safon Cymraeg bobl yn y grŵp yn gwella’n sylweddol. A nawr dim ond ambell air o Saesneg sy’n cael ei defnyddio.

Ond roedd canlyniadau annisgwyl hefyd. Roedden ni’n synnu faint o ddefnyddwyr y caffi - o’r pentref neu ymwelwyr - oedd yn siaradwyr Gymraeg. Ac roedd y siaradwyr hyn yn synnu at glywed pobl yn siarad Cymraeg. Ond roedden nhw’n falch iawn, ac yn dod draw i gael sgwrs â ni.

Ond, yn ogystal â hyn, dwedodd Cymraes, a oedd wedi ymuno â’r grŵp, wrthon ni am Gymdeithas

Gymraeg Llandeilo Ferwallt. Ar y naill law roedd y syniad o fynd i gymdeithas Cymraeg yn gyffrous iawn ond ar y llaw arall roedd y syniad o fynd i mewn i gylch hollol Gymraeg yn gwneud i mi boeni braidd. Ond dyna'n union pam roedden ni'n dysgu Cymraeg, felly bant â ni i'r cyfarfod nesaf - a doedd dim angen poeni - roedd pawb mor groesawgar ac mor gyfeillgar.

Galla i ddweud, felly, bod dechreuad bach (sef dau neu dri ohonon ni'n cwrdd mewn caffi lleol) wedi arwain at ganlyniadau annisgwyl. Mae pobl yn y grŵp wedi dod i adnabod nifer o siaradwyr Cymraeg. Pan rydyn ni'n gweld ein gilydd yn y stryd, mae siarad Cymraeg gyda'n gilydd yn hollol naturiol.

Mae fy mhrofiadau wedi dangos i fi gymaint o siaradwyr Cymraeg sydd ym mhob man, llawer mwy na roeddwn i wedi sylweddoli ynghynt. Mae'r Gymraeg yn dipyn o gyfrinach ac mae hyn yn broblem, ond yn ein ffordd ddiniwed rydyn ni wedi dod ar draws yr ateb. Wrth i bobl glywed dau neu dri o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn y caffi lleol pob wythnos mae hynny wedi denu llawer mwy i'n plith. Yn ei dro mae hynny wedi cael ni i mewn i Gymdeithas Cymraeg lleol.

*Dyma brofiad un grŵp o ddysgwyr a oedd yn poeni am eu cyfleoedd i siarad Cymraeg ar ôl i'r dosbarthiadau nos ddod i ben. Sgîl effaith eu penderfyniad gwreiddiol yw bod llawer mwy o bobl yn clywed ein hiaith yn wythnosol lle doedd dim o'r blaen. Mae tebygrwydd fan hyn i'r ddameg am y bara a'r pysgod yn does? Felly i chi fydd yn gorffen eich cyrsiau eleni gwnewch y penderfyniad i gyfarfod yn wythnosol am banded. Ond gwnewch yn siŵr bod pobl yn eich gweld chi ac yn eich clywed chi.*

*Cryfder pob iaith yw'r bobl sydd yn ei siarad ac mae dysgwyr yn gallu ychwanegu'n sylweddol at y cryfder hwnnw.*

*Hir oes i'r iaith!*



### **Learn Welsh quicker by using the resources available!**

Just sit back for a minute and imagine that you are, once again, young and fancy free. You would really like to get to grips with the French language, a language that would give you a great deal of opportunities. You have enough money put aside to live comfortably for a year. What would be the best way for you to build up your French to be able to speak it like a native? You would probably decide to go and work there for a year and live your life through the French language. That would work wouldn't it!

I am, of course ignoring the fact that Brexit happened!

But try and do that with Welsh and it just doesn't work at all – we just don't have enough Welsh speakers and when you get into difficulties the conversation turns to English. What you need to do is to create a Welsh bubble, a period in the day when you immerse yourself in the Welsh language. It's easy to do just as long as you don't expect to understand everything. In this exercise understanding is not the aim. The aim is to recognise odd words here and there that you have already learnt in your class.

I'm talking about watching a bit of television!

The sort of programmes you need to choose are those that take you into the Welsh countryside, a programme that includes lots of landscapes that please your eye. Whilst admiring those landscapes you will hear, in the background, the narrator's voice. Every now and then you will recognise a word and in your sub-consciousness you

will match it with its English equivalent. You won't worry about all the words you didn't understand because you have been fascinated by a kingfisher catching a fish or new born lambs playing in green fields.

S4c has plenty of visually satisfying programmes so which one would you choose? In better times when you are all learning together it would be easy, you could just take a copy of the weekend supplement of the Western Mail with you to class and I'm sure your tutor would advise you. You could all try different programmes and discuss them briefly in the next session. Just remember that it's the visual satisfaction that's important, everything else will gradually build up. You don't believe me?

Isn't that the way babies learn their mother tongue, listening to lots of words they don't understand?

Use the night school to learn new words and new ways of putting those words together and let the television help you recognise them in a real situation. You will be consolidating what you have learnt and at the same time opening the window into Welsh life.

### Programmes you could try

**Noson Lawen** – a traditional entertainment programme where you can enjoy the musical talents that Wales is renowned for. **Saturday**

**Am Dro** – four people take it in turns to lead their favourite walk and tell their stories.

**Sunday**

**Deuawdau Rhys Meirion** – or anything by Rhys Meirion. Lots of fun and enjoyable singing. **Sunday**

**Cefn Gwlad** – visits to different parts of the Country. **Tuesday**

**Codi Pac** – Geraint Hardy visits various places to see what they have to offer. **Friday**

**Cynefin** – repeated quite often and worth doing search for.

**Iolo Williams** – wildlife programmes, again worth doing a search for

The day of the broadcast may vary due to repeats.



### Geirfa

#### Talent Arbennig

Erchyll – frightful

Ymledu – to spread

Anwyliaid – loved ones

Ffuglen ddi- chwaeth – distasteful fiction

Colli gfael – to lose grip

Rhyfeddu – to wonder at

Cyferbyniad – contrast

Fynnu – to do well

Welais gollod – I missed

Cynhyrchu – to produce

Crafu pennau – to scratch heads

Gwledd – a feast

Ailddarllenaiadau – repeats

Dudley – a TV chef

Anfarwol – unforgettable

Cym on Midffild – a football TV drama

Prif cymeriadau – main characters

Rownd a Rownd – N Wales soap opera (v good)

Seibiant – a rest

Cyffrous – exciting

Sgwrs Dan y Lloer – chat by moonlight

Hogia'r Wyddfa – a pop group (same age as me!)

Herwgipio – to kidnap

Talentau cerddorol – musical talents

Te yn y Grug – a classic book by Kate Roberts

Yn seiliedig ar – based on

Torf – a crowd

Sefydli – to establish

Ysgol Glanaethwy – a drama college  
Noson Lawen – a variety programme  
Ystyried – to consider  
Cyfrifiad – census  
Rheswm balchder – a reason for pride  
To ifanc – younger generation  
Balchder – pride  
Pechod – sin  
Codwch wydryn – raise a glass  
Dymuno – to wish  
Dyfodol disglair – a successful future

### **Beth sy' ar y teledu?**

Byw mewn gobaith – to live in hope  
Diddorol – interesting  
Doniol – funny  
Addysgiadol – educational  
Ymhlith – among  
Amser maith yn ôl – long time ago  
Diwylliant poblogaidd – popular culture  
Gwnïo – to sow  
Pobl hollol ddiarth – complete strangers  
Diffyg diddordeb – lack of interest  
Rhoi'r ffidil yn y to – to give up  
Yn fwy na thebyg – more likely than not  
Drama trosedd – crime drama  
Gwleidyddol – political  
Os ar gael – if available  
Eleni – this year  
Amrywiaeth – a variety  
Difyrru – to entertain  
Cynghori – to advise  
Er enghraifft – for example  
Cyflwynydd – presenter  
Rhagor – more  
Yn andros o dda – really good  
Mwy neu lai – more or less  
Casgliad – a collection  
Dyddiau o – dating from  
Adferiad – a restoration  
Ffilm nodwedd – feature film  
Y Chwarelwr – the quarryman  
Yn ogystal â – as well as  
Rhywbeth yn gyffredin – something in common  
Ymweld â – to visit  
Hyd a lled – all over  
Cyfaddef – to confess

Ewch amdani! – go for it!  
Cipolwg – glance  
Yn eu plith – among them

### **Castell Siwgr**

Bodolaeth – existence  
Meistr – master  
Yn gyffredin – in common  
Chwarel – quarry  
Planhigfa – plantation  
Cansenni siwgr sugar cane  
Crafangau – clutches  
Tyddyn – smallholding  
Corddi – to churn  
Casglu gwlân – to gather wool  
Edau – thread  
Nyddu brethyn – to weave material  
Caethweision – slaves  
Disgyn – to go down  
Tlodi – poverty  
O gwmpas – all around  
Cyfoethogion – the rich people  
Dim dianc – no escape  
Yn effeithio'n arw – to badly affect  
Am sbel – for a while  
Cipio – to take away  
Cludo – to Transport  
Cam drin – to abuse  
Chwipio – to whip  
Yn waeth byth – even worse  
Y lleill – the others  
Gorfodi – to make someone do something  
Gwylio nhw'n dioddef – watch them suffering  
Caethwasiaeth – slavery  
Hollol annerbyniol – totally unacceptable  
Tebyg – similar  
Y darlun cyfan – the whole picture  
Yn eich gwylltio chi – will enrage you  
Cael gwared – to get rid of  
Cofgolofn – memorial  
Syniad – idea  
Ail-ystyried – to reconsider  
Yn dawel bach – quietly  
Cynnyrch rhad – cheap produce  
Sefyllfa anghyfforddus – uncomfortable situation



### **Dic Shonnelly**

Sgwn i pam? – I wonder why?

### **Brian a Kathy**

Dim llawer – not much

Rhieni – parents

Yn agos – near

At ein gilydd – to each other

Cyfarfod – to meet

Ymarfer – to practice

A finnau – me too

Ardderchog – very good

Ynghynt – earlier

Cyfrinach – secret

Dod ar draws – to come across

Denu – to attract

Sgil effaith – side effect

Tebygrwydd – similarity

Dameg – parable

Cryfder – strength

Ychwanegu – to add

Hir oes i'r iaith – long live the language

### **Ci gwyllt ar y traeth**

Ysgwyddau – shoulders

Dig – cross (annoyed)

Dan reolaeth – under control

Rhowch o ar dennyn – put it on a lead

Dod yn ôl at fy hun – to get myself together

### **Sgyrsiau Pwysig**

Sgiliau sylfaenol – basic skills

Cyfle pwysig – important opportunity

Gwastraffu – to waste

Atgyfodi – to resurrect

Cwrdd – to meet

Cymraeg llafar – spoken Welsh

Defnyddiol – useful

Fesul tipyn – bit by bit

Yn fuan – quickly

Clywed sôn – to hear about

Strwythur – structure

Rhoi'r byd yn ei le – put the world to rights

Cryn dipyn – rather a lot

Safon – Standard

Sylweddol – greatly

Dim ond ambell air – only a few words

Canlyniadau annisgwyl – unexpected results

Synnu – to be surprised

Defnyddwyr – users

Yn ogystal â – as well as

Ar y naill law – on the one hand

Ar y llaw arall – on the other hand

Cylch hollol Gymraeg – totally Welsh circle

Croesawgar – welcoming

Cyfeillgar – friendly

Profiad – experience